

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 10.11.2021
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cyngorwyr Elfed Davies, Danny Davies, Pamela Jones, Derick Lock, Arwel Nicholas, Dylan Jones
Ymddiheuriadau: Neb

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	PJ – yn perthyn i 2 bwyllgor.	
Cofnodion	Cytunwyd eu bod yn gywir – ED & DL	
Materion yn Codi	<p>Bont y Ffatri – heb gael ateb oddi wrth Priffyrdd.</p> <p>Archwilio Cymru - DD & ED am wybod all Un Llais Cymru geisio cymodi? Clerc yn ateb a dweud nad ydi'r Cyngor yn aelod o'r mudiad mwyach. DL am wybod beth oedd y farn yn dilyn y cyfarfod answyddogol. AN yn dweud mai cymodi a cheisio cydymffurfio gyda AC oedd dymuniad y gymuned. Angen trefnu cyfarfod arall gan fod Deryck Evans AC wedi lleisio barn i'r cyfarfod gwreiddiol fod yn anghyfreithlon. DL am gynnal cyfarfod arall ac ED yn cytuno oherwydd fod rhaid ceisio dod a diwedd i'r sefyllfa. AN o'r un fryd. DL am gael cadarnhad oddi wrth Banc Lloyds a oedd AC wedi gofyn am fanylion banc y Cyngor. Penderfynnwyd yn unfrydol i drefnu cyfarfod arall ar 01.12.2021. DL am wahodd yr 8 gwreiddiol. ED yn dweud fydd y sawl sydd a diddordeb, yno pan rhyddhaer y cyhoeddiad newydd.</p> <p>Gethin Edwards – pawb yn cytuno cydnabod ei wasanaeth i'r Cyngor.</p> <p>Blychau BT – Clerc heb gysylltu gyda Zurich</p> <p>Evans & Lloyd – Clerc i ddelio gyda fe.</p> <p>Canolfan Ailgylchu – AN & ED yn dweud mai y Neuadd sydd berchen y ddaear a does dim rhaid dioddef ymddygiad anghymdeithasol.</p> <p>PJ – Beth am eu symud i waelod Rhiw Cŵpers? Clerc i gynnig y safle hyn iddynt.</p> <p>Ffynnonhenri – Dim ateb.</p> <p>Goleuadau stryd – Un wedi trwsio ond heb newid y ddau oren.</p>	
Gohebiaeth	<p>B4301 – AN yn darllen llythyr Cyngor Cymuned Bronwydd am gyflwr truenus yr heol sy'n mynd heibio yr hen safle sbwriel. Pawb yn cytuno cefnogi Cyngor Bronwydd.</p> <p>AN – Banc Lloyds ddim yn cydnabod fod ganddo hawl i lofnodi sieciau; dim ond gan DD mae hawl. DD yn dweud fod gan Wyn Thomas a'r diweddar Mali Lloyd awdurdod i lofnodi sieciau. DL yn cynnig fod dau Gynghorydd arall yn cael eu</p>	

	dewis i lofnodi sieciau. ED yn cynnig fod AN yn dyfalbarhau i gael awdurdod o leiaf tan etholiadau y flwyddyn nesaf. ED yn bwriadu ymddiswyddo oherwydd diffyg symud materion 'mlaen. Angen cael trafodaeth am ddyfodol y Cyngor. Clerc i 'neud beth y gall i weithio gyda'r Banc.	
Cynllunio	Bryniouar – Dim gwrthwynebiad. Dolau Uchaf – Dim gwrthwynebiad.	
Materion Ariannol	Rhaid gohirio eto.	
UFA	DL – Dim PJ – Dim DJ – Dim DD – Dim ED – Dim AN – Arwydd ffordd wedi syrthio i'r llawr ar sgwâr Pandy.	
Cyfarfod yn gorffen	9.30	

Cafwyd yn gywir :	Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)	(Ysgrifennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: